Cynllun Gweithgaredd		
Gweithgaredd: Chwarae ac arbrofi gyda dŵr		
Nifer o blant: 4	**Oed y plant:** 4	**Nifer o oedolion:** 1
Lleoliad: tu allan y Cylch Meithrin	**Amser paratoi:** 10 munud	**Amser gweithgaredd:** 30 munud
Adnoddau: 2 Padell ddŵr, dail, cerrig, brigau, boteli plastig, deunyddiau diddos (waterproof) o'r meithrinfa **Adnoddau ysgrifennu atebion yr arbrawf-** 1 tudalen cofnodio adnoddau y meithrinfa, 1 tudalen cofnodi deunyddiau naturiol		
Amcan/ion y weithgaredd: Datblygu sgiliau mathemategol a ddod i arfer gweithio fel grŵp ac yn unigol		
Cysylltiadau â deilliannau: Cyfleuoedd i'r plant i ddysgu a arbrofi gyda dŵr		

Gwahaniaethu: Maent yn addas i bob plentyn wrth i'r gweithgaredd cael i'w addasu ar gyfer unrhyw unigolyn neu grŵp os yw hi'n briodol	
Iechyd a diogelwch: Sicrhau bod asessiad risg wedi cael I'w gwblhau yn cywir er mwyn sicrhau y gofal gorau ar gyfer y plant Er enghraifft – ardal diogel ac ar glo, dim ymylau miniog ar adnoddau, llawr llithrig o'r dŵr, ac yn y blaen.	
Rôl yr oedolyn/oedolion: Rôl yr oedolyn wrth i'r gweithgaredd yma mynd yn y blaen yw i fod yna i arsylwi y plant i sicrhau bod pob un ohonynt yn gyfyrddus ac yn hyderus wrth gwneud y gweithgaredd, ac cami i mewn os y plenty yn cael trafferth cyflawni y gweithgaredd	
Y weithgaredd: Mae'r weithgaredd chwarae ac arbrofi ar ddŵr yn un syml, felly yr hyn sydd angen paratoi yn gyntaf yw ardal addas i'r ddau padell ddŵr a sicrhau bod digon o le i phob plentyn i atal unrhyw damweiniau, a ddod o hyd i'r adnoddau priodol i ddefnyddio yn y dŵr, sef dail, boteli plastig, dail, cerrig a brigau ac yn y blaen. Bydd y weithgaredd yma yn ffocysu ar pa adnoddau sydd yn suddo a beth sydd yn arnofio. Wrth i'r plant chwarae yn y dŵr byddant hefyd yn cael cyfle i ddysgu a ddarganfod y gwahaniaeth yn phwysiadau gwahanol. Fe fydd ddau wahanol padell i'w gael, fe fydd un ar gyfer y deunyddiau naturiol, sef y dail, cerrig brigau ac yn y blaen a bydd yr ail un ar gyfer y adnoddau diddos (waterproof) o'r meithrinfa Cyn ddechrau	

ychwanegu y adnoddau priodol meant yn disgwyliedig i'r plant tybio beth bydd yn arnofio a beth fydd yn suddo i weld faint meant yn diall cyn yr arbrofi, fe fydd hyn yn cael i'w wneud ar y tudalen sydd gyda y tabl arni, fe fydd y atebion cywir hefyd yn cael i'w gofnodi ar y tudaen yma ar ôl gwneud yr arbofio, fe fydd un tudalen ar gyfer yr adnoddau y meithrinfa, ac un arall ar gyfer y deunyddiau naturiol, ar ôl i phob plentyn tybio eu farn gall yr adnoddau cael i'w ostwng yn y dŵr, ond un yr y tro i sicrhau bod pob plentyn yn gweld beth sydd yn digwydd a pham. Wrth i'r deunyddiau cael i'w ostwng fe ddylau y plant cael darn o babur gyda tabl a lluniau or wahanol deunyddiau ac nodi beth mae'r adnoddau yn neud, nail ai suddo neu arnofio, wrth gwneud tic yn y colofn cywir, yna ar ol gorfen y arbrofi, mae'n rhaid nodi a chyfri faint sydd wedi suddo a faint sydd wedi arnofio a chyfri y wahaniaeth rhwng a ddau.

Gwerthuso

Pam dewis adnoddau naturiol ar gyfer yr weithgaredd yma?

Wrth i'r plant defnyddio deunyddiau naturiol i chwarae maent yn cynnig eang o gyfeluoedd i'r plant, gall cael i'w ddefnyddio yn eu gyflwr gwreiddiol, neu defnyddio eu ddychymyg fel rhywbeth arall, yn y gweithgaredd yma bydd y plant yn defnyddio nhw fel y maent. Er bod plant medru gallu defnyddio'u ddychymyg gyda adnoddau sydd ddim yn naturtiol maent yn mwy ddebygol o gwneud hyn gyda rhai naturiol. Mae defnyddio adnoddau naturiol yn caniatau i blant profi beth ydyn nhw yn go iawn neu beth gallau efallai cael i'w ddefnyddio fel, TTS (2017). Mae deunyddiau naturiol yn rhad ac am ddim, ac yn rhwydd i'w gasglu ble bennag rydych. Wrth ddarllen Under5s.co.nz (2018) maent yn egluro bod plant yn defnyddio phob synhwyrau ac yn ddysgu trwy gwneud hyny yn ogystal a hyn yn dysgu pharch a wybodaeth i oedolion a phlant am y byd naturiol. Yn ol ymchwil Early years careers (2015) mae plant yn fwy tebygol o ddefnyddio a gwario fwy o amser yn chware gyda adnoddau naturiol yn archwilio mwy am yr adnoddau, ychwanegau Early years careers (2015) hefyd bod plant yn ail ddefnyddio yr adnoddau yma drostodd a drostodd, ond phob tro yn ddefnyddio nhw yn arddull wahanol. Yn ôl gwefan arall Early years careers (2016)

maent yn dweud bod adnoddau plastig yn atal plant o gynnwys eu ddychymyg wrth chwarae ag bod adnoddau naturiol yn annog y plant i ddefnyddio eu creadigaeth ac ddychymyg wrth chwarae, ychwanegau y wefan yma eto bod deunyddiau naturiol yn ffordd dda o helpu unigolion i ddysgu am amser, newid, ymchwiliad ac archwilio. Yn drydydd o'r wefan yma meant yn cynnwys sut mae plant yn arsylwi ar y byd nature, er enghraifft sut maent yn arslwi ar bethau fel brigau a dail a sut mae'n newid o dymor i dymor trwy gwylio'r newidiau yma mae'n helpu nhw i ddeall a theimlo sut mae'r byd yn newid gyda amser. Dadleiau Pratt (2011, darllenwyd yn Community playthings, 2021) er mwyn i blant fod yn fathemategwyr effeithiol fe ddylau datblygu 'gwarediad mathemategol' (mathematical disposition), hyn mae'n awgrymu, gallu cael i'w cefnogi trwy gwneud mathemateg yn yr awyr agored, gall hyn cael plant i ddatblygu ymwybyddiaeth bod mathemateg o'u gwmpas ym mhob man, mae hyn yn cyniatau iddynt wneud cysylltiadau yn eu ddysgu a'u phrofiadau o ddeunyddiau naturiol yn y fan a'r lle. Fel Pratt, mae Knight (2011, darllenwyd yn Community playthings, 2021) yn awgrymu bod plant mwy greadigol pan maent allan yn yr awyr agored ble maent yn cael rhyddid i fod yn "arloesol, hyblyg ac addasadwy" ac y bydd yr amgylcheddd hwn yn ysgogi meddwl mathemategol creadigol (creative mathematical thinking). Dwedau Froebel (1852, darllenwyd yn Bright Hub Education, 2011) nid yn unig wnaeth gweithgareddau tu allan ysgogi ymwybyddiaeth plant ifanc or byd naturiol, fe wnaethant ddysgu unigolion ifanc y cysylltiadau presennol rhwng yr amylchedd naturiol, bwyd ac iechyd.

Tasg 3

Adnoddau

Credau Piaget (1978, darllenwyd yn Sagepub, 2013) bod plant yn adeiladu eu wybodaeth a ddealltwriaeth eu hun trwy rhyngweithio gyda eu hamgylchedd, gewlwi rhyn yn theory adeiladol. Yn ail or wefan (sagepub, 2013) cyfeirir tuag at Vygostky (2011) fel adeiladwr cymdeithasol (social constuctivist), mae Vygostky yn pwysleisio ar y angen i blentyn gael arweiniad gan 'person sydd fwy gwybodus' a cael chyfleuoedd i rhyngweithio'n gymdeithasol gyda chyfoedion fel un ffordd o ddysgu. Yn ôl gwefan Teachwire (2017) mae'n bwysig i blant cael adnoddau ddilys a hefyd adnoddau y byd go iawn sydd yn mynd i'w annog i geisio ddysgu, gall defnyddio adnoddau fel hyn helpu plentyn i archwilio eu ddealltwriaeth mathemategol cynyddol.

Yn ogystal a hyn, mae Teachwire (2017) yn cynnwys bod defnyddio casgliadau o bethau, hynnu yw gwrthrychau naturiol fel, cerrig cregynnau, concyrs a brigau ac yn y blaen, yn ychwanegol i hyn pethau an naturiol fel, bagiau ac bocsys, gleiniau, bathodynnau, sanau ac menyg, ac yn y blaen yn rhoi'r cyfle i'r plant didoli y gwrthrychau mewn amryw o ffyrdd. Wrth i blunt chwara egyda adnoddau naturiol maennt yn rhoi'r cyfle iddynt datblygu eu ddealtwriaeth o fathemateg trwy siarad, defnyddio iaith rhif, archwilio siâp a gofod, amcan gyfrif a mesur, gwneud rhagfynegiadau a chofnodi canlyniadau, Early Years Teach (2021). Dwedau gwefan arall Early Years Teach (2021) bod chwarae gyda blociau yn gallu cynyddu datblygiad plentyn gan ei fod yn pen agored, rhoi'r plenty i fod yn greadigol, maent yn rhoi'r cyfle I blentyn chwarae a dysgu profiad. Mae chware a blociau yn rhoi'r cyfle i'r plentyn cael amser rhydd, wrth eu hun, i archwilio fel unigolyn ond hefyd gall chware a blociau rhoi'r cyfle i blant gweithio gyda'n gilydd. Yn ail or wefan Early Years Teach (2021) maent yn canolbwyntio ar y agweddau o ddysgu trwy chware a blociau, sef dychymyg, hunanfynegiant, datrys problemau, mathemateg, datblygiad corfforol, creadigaeth, gwyddoniaeth, chyfathrebu a llythrennedd. Mynegau Petit Early Learning Journey (2020) dylai deunyddiau naturiol fod yn elfen annatod o chwarae plenty yn y Meithrinfa, ac yn y cartref. Mae deunyddiau rhydd fel brigau, dail, cerrig a thywod o fudd i blentyn ifanc, mae hyn oherwydd bod e'n ysgogi y plentyn i fod yn greadigol a hefyd defnyddio ei ddychymyg, gall eu ddefnyddio nhw fel ei wir beth, neu dychmygu ei fod yn beth gwbl wahanol. Mantais amlwg sydd gan deunyddiau naturiol yw eu bod yn rhad ac am ddim ac yn rhwydd iawn i'w weld, maent hefyd yn annog y plant i ddysgu am natur. Wrth i blant defnyddio adnoddau naturiol maent yn cefnogi mathemateg trwy gwneud gwahanol patrymau a gasglu gwahanol casgliadau, yn ogystal a hyn maent yn helpu mathemateg trwy defnyddio y synhwyrau sy'n cynnwys, cyffwrdd, arogli, sŵn ac blas, Early Years Teach (2021). Yn ychwanegol i'r wefan yma Early Years Teach (2021) maent yn cynnwys sut mae defnyddio deunyddiau naturiol yn an annog mathemateg trwy ymchwilio mesuriadau, wrth cymharu gwahanol deunyddiau or rhan maint, a gweld pa un sydd yn mesur y fwyaf/lleihaf. Wrth ddarllen gwefan Early years the organization for young children (2018) maent yn awgrymu bod defnyddio tywod yn datblygu cysyniadau a iaith mathemategol y plentyn er enghraifft, llenwi gwydr plastig â thywod a gweld os yw hi'n ysgafn, drwm, gwag, llawn, mawr neu bach, gweld faint gall y gwydr ei ddal, gwneud gwahanol patrymau, gweld y gwahaniaeth mewn golwg

a phwys y tywod cyn ag ar ôl ychwanegu dŵr. Mae ‘play dough’ yn medru helpu plentyn datblygu cysyniadau a iaith mathemategol y plentyn hefyd, i rhyw rhaddau yn tebyg i dywod, ond gyda y ‘playdough’ mae’r plant medru neud siâpiau gwahanol maint sydd yn 2d neu 3d, gyda’r deaned yma gallwch gwella iaith mathemategol y plenty i rhaddau wrth ddefnyddio y termiau, byr, hir, tenau a dew. Wrth ystyried gwahanol ardaloedd chwarae tu allan mae rhanfwyaf ohonynt gyda tegannau traddodiadol fel ceir a blociau, ond wrth ychwanegu adnoddau mathemategol maent yn annog y plant i chwarae yn ffyrdd annisgwyl a chymleth, adnodddau mathemategol fel ffrâmiau deg, byrddiau didoli, hoopiau, llinellau rhif ac yn y blaen, ar y ffrâamiau deg gall deunyddiau rhydd cael i’w gyfri arnynt er mwyn annog cyfri yn yr ardal tu allan, Naeyc (2017). Gall yr adnoddau dysgu yma i gyd helpu y plant ddysgu a chwrae yn ffyrdd mathemategol. Wrth i blant ceisio ddatrys problemau trwy gwneud mathemateg maent yn golygu bod yn rhaid i’r plant i arbrofi wrth chwarae a dysgu. Dwedau Vygotsky a Piaget bod plant yn fwy tebygol o ddysgu trwy chwarae, ac mae plant yn fwy awyddus i chwarae pan mae’r chwarae wedi cael i’w hunangyfeiro fel mae’r plentyn eisiau. Mae plant yn datrys problemau yn naturiol o geni Early Years Careers, (2015) maent yn dysgu o treial a chamgymeriadau drostodd a drostodd tan bod y datrysiad cywir gyda y plant.

Tasg 4

Rôl Yr Oedolyn

Mae’r oedolion sydd o gwmpas y plentyn yn dylanwadu ar ansawdd y plant wrth chwarae, mae’r oedolion yn darparu adnoddau a ddeunyddiau ag yn annog y plant i ddysgu gweithgareddau Newydd, Early Years The Organisation For Young Children (2018). Er bod oedolion gyda rhan mawr yn addysg a chwarae plentyn nid yw chwarae yn cael i’w gyfarwyddo gan yr oedolyn, gall oedolyn cymorthwyo, gwella ac ymestyn y chware ond yr eiliad maent yn ymyrryd neu yn gorchmynu ar y plentyn mae’n effeithio ar cynnydd y plentyn yn ystod y cyfnod chwarae. Yn ystod y cyfnod gwneud y cynllun arbrofi a chwarae ar ddŵr mae’n ddisgwyliedig i’r oedolion i gamu yn ôl a arsylwi bob plenty yn unigol i weld cynnydd y plentyn a sefyll i mewn i helpu nhw os oes unrhyw un yn cael trafferth i ddeall neu cwblhau y dasg yn cywir. Nid y gweithgaredd yma yn unig ddylau oedolion camu i fewn os yw hi’n briodol, mae’n bwysig bod pob plentyn

yn cael y cymorth cywir sydd yn hanfodol iddynt, ond mae'n rhaid sicrhau bod pob plentyn wedi ceisio y dasg ei hun. Un o agweddau pwysicach rôl yr oedolyn yw cynllunio, mae cynllunio tasg yn newid i bod plentyn o achos bod pob plentyn yn wahanol ac yn deall gweithgareddau yn ffyrdd wahanol. Er mwyn cynllunio ar gyfer pob plentyn maent yn bwysig cael y fwyaf o wybodaeth am yr unigolyn a phosib, gall gwneud hyn trwy siarad gyda y rhieni a arsylwi y plentyn wrth iddo/ iddi chwarae, UKessays (2017). Mae ymchwil Ukessays (2017) yn dweud y ffyrdd orau o arsylwi plentyn yw amser chwarae rhydd, trwy'r cyfnod yma maent yn rhoi'r cyfle i'r gweithwr gweld beth mae'r plentyn yn hoffi, casau, ei gryfderau ai wendidau, wrth cadw y agweddau yma i ystyriaeth trwy cynllunio mae'n rhoi'r cyfle i gynllunio yn fwy drylwy ac effeithiol ar gyfer cefnogi pob unigolyn. Caiff arsylwi i ymwneud â gwylio gweithredoedd, ymadroddion, ystymiau, ymddygiad, gwrando ar y plentyn yn siarad a'u rhyngweithio, Nursery World (2006). Weithiau mae'n ymwneud ag ymuno mewn a'u chware neu sgyrsiau a gofyn cwestiynau ond sicrhau taw'r plentyn sydd yn arwain y trafodaeth. Mae'n bwysig siarad â phlentyn a agwedd sensatif a barchus tuag at chwarae plentyn a bod yn agored i agenda ddysgu pob unigolyn sydd yn y Meithrinfa. Mae pob plentyn fod cael gwerth yn y Meithrinfa, ac mae pob ymarferwr i fod ymateb i angenion unigol a diddordebau pob plentyn gan arwain eu datblygiad trwy ryngweithio'n cynnes, cadarnhaol a sicrhau bod y darpariaeth yn adlewyrchu ac yn cefnogi pob plentyn. Dwedau ymchwil Essex County Council (2021) bod hi'n bwysig i ymarferwyr ystyried anghenion, diddordebau a camau datblygu pob plentyn yn neu gofal a rhaid defnyddio'r gwybodaeth i gynllunio profiad heriol a difyr i bob plentyn ym mhob un o'r meysydd dysgu a datblygu. Dylau ymarferwyr hefyd cael y ddealltwriaeth trylwy o sut mae plentyn yn datblygu. 'The attitude and behavior of adults outdoors has a profound impact on what happens there and no children's learning. It is therefore vital that children have the support of attentive and engaged adults who are enthusiastic about the outdoors and understand the importance of outdoor learning' DCSF, (2008, darllenwyd yn First discoverers, 2020) ymhellach deallwyd bod sut mae'r ymarferwyr/ rhieni yn gweithio yn effeithio ar sut mae'r plentyn yn datblygu. Wrth i'r blant gwneud y tasg a cynlluniwyd mae'n bwysig i'r oedolyn cymeryd sylw a ymuno i mewn ac cymeryd diddordeb ar y gweithgaredd i annod diddordeb y plant yn y gweithgaredd, fe ddylau y ymarferydd hefyd fod yn brwdfrydig wrth gwneud unrhywfath o weithgareddau gyda y plant. Nid yw rôl yr oedolyn yn newid os yw'r

gweithgaredd yn cael i'w gynnal tu allan neu tu fewn maent yr un mor bwysig a'i gilydd gan bod datblygiad y plentyn yn cael effaith ar y cyfan. Awgyrma Vygotsky (1896, darllenwyd yn First discovers, 2020) bod dysgu yn broses gymdeithasol yn y bôn lle mae cefnogaeth rhieni, gofalwyr, cyfoedion o'r gymdeithas, ymarferwyr meithrinfa a diwylliant ehangach yn chwarae rhan hanfodol yn nhatblygiad swyddogaethau seicolegol pob plentyn fel unigolion ifanc. Mae'n ofynol bod rhieni a gweithwyr yn rhoi amgylchedd diogel a chariadus i blentyn, trwy rhoi'r amgylchedd yma i blentyn mae'n rhoi'r cyfle iddo/ iddi ddysgu mwy gan mae'r amgylchedd yn fwy bositif a hapus iddynt, Your Child's Social – Environmental Development (Dim Dyddiad). Yn ôl y wefan yma eto, dwedwyd Comfort, Play and teach: A Positive Approach to Parenting (Dim Dyddiad) bod rhaid i plant nhw fod iI gael eu gysuro a theimlo'n ddiogel, yn enwedig pan fyddant yn sâl, wedi blino, yn ofidus neu wedi eu frifo. Yn ogystal a hyn mae angen iddyn nhw charae ac archwilio eu byd. Mae angen pobl yn hŷn arnyn nhw i'w ddysgu sut i feddwl datrys problemay a chyfathrebu, maen nhw'n hefyd angen rhieni a gweithwyr y Meithrinfa i'w helpu i ddod ynghyd ag eraill a dysgu or hyn sy'n anghywir. Mae plant yn dysgu wrth y oedolion maent o amgylch o hyd, felly maent yn rôl arnynt i fod yn barchus fel bod yr ymddygiadau yma yn dylanwadu ar y plant, ond wrth gofio bod pob plentyn yn unigryw ag bod pob un yn dysgu yn wahanol i bersonoliaethau wahanol pob plentyn. Mae'n swydd i bob oedolyn i fod yn bwyllog pan mae plentyn yn colli rheolaeth ag i arwain nhw nôl i mân sefydlog.

Bright Hub Education. (2011) Why is Outdoor Play Important for Children? Theorists Weigh in on Benefits. Ar gael o: https://www.brighthubeducation.com/teaching-preschool/107367-theories-on-the-importance-of-outdoor-play/ (Darllenwyd: 2ail o Fawrth 2021)

TTS. (2017) Learning to play the natural way – the benefits of natural resources. Ar gael o:https://www.tts-group.co.uk/blog/2017/04/03/learning-play-natural-way-benefits-natural-resources.html (Darllenwyd: 2ail o Fawrth 2021)

Under5s.co.nz. (2018) Using natural resources for learning. Ar gael o:

https://www.under5s.co.nz/shop/Hot+Topics+Articles/Toys+Books+Play/Benefits+of+play/Using+natural+resources+for+learning.html (darllenwyd: 2ail o Fawrth 2021)

Early years careers. (2016) Are natural resources better than plastic toys? Ar gael o:

https://www.earlyyearscareers.com/eyc/enabling-environment/are-natural-resources-better-than-plastic-toys/ (darllenwyd: 2ail o Fawrth 2021)

Early years careers. (2015) Using natural materials in the environment. Ar gael o:

https://www.earlyyearscareers.com/eyc/eyfs-training-material/why-little-learners-childcare-corby-use-natural-materials/ (Darllenwyd: yr 2ail o Fawrth 2021)

Wisbey, M. (2021) Maths in the great outdoors. Ar gael o: https://www.communityplaythings.co.uk/learning-library/articles/maths-in-the-great-outdoors (Darllenwyd: 2ail o Fawrth 2021)

Taylor, H. (2015) *How Children Learn Mathematics and the Implications for Teaching*. Ar gael o: https://www.sagepub.com/sites/default/files/upm-binaries/59230_Taylor_&_Harris.pdf

(Darllenwyd: 2ail o Fawrth 2021)

Dancer, J. (2017) *Maths in Early Years – "What Children Learn Is Important-But How They Learn Is Even More Crucial".* Ar gael o: https://www.teachwire.net/news/maths-in-early-years-what-children-learn-is-important-but-how-they-learn-is (Darllenwyd: 2ail o Fawrth 2021)

Skinner, C. (2021) *Getting Constructive with Maths.* Ar gael o: https://www.teachearlyyears.com/learning-and-development/view/getting-constructive-with-maths

(Darllenwyd: 2ail o Fawrth 2021)

Chewter, C. (2021) *The Benefits of Block Play.* Ar gael o: https://www.teachearlyyears.com/learning-and-development/view/the-benefits-of-block-play

(Darllenwyd: 2ail o Fawrth 2021)

Petit Early Learning Journey (2020) *20 Essential Self Help Skills For Toddlers.* Ar gael o: https://www.petitjourney.com.au/natural-materials/

(Darllenwyd: 2ail o Fawrth 2021)

Mclennan, D, P. (2017) *Math Learning- and a Touch of Science – in the Outdoor World.* Ar gael o: https://www.naeyc.org/resources/pubs/tyc/apr2017/math-learning-outdoors

(Darllenwyd: 2ail o Fawrth 2021)

Early Years Careers (2015) *How to promote problem solving in the ealry years.* Ar gael o: https://www.earlyyearscareers.com/eyc/latest-news/how-to-promote-problem-solving-in-the-early-years/ (Darllenwyd: 2ail o Fawrth 2021)

Early Years the Organisation for young children (2018) *Maths through Play.* Ar gael o:

http://www.cheetham.manchester.sch.uk/wp-content/uploads/2018/04/maths-through-play.pdf (Darllenwyd: 2ail o Fawrth 2021)

Clare, V. (2017) *Importance of Planning in Childcare Enviroment.* Ar gael o:

https://www.ukessays.com/essays/childcare/importance-planning-childcare-4952.php

(Darllenwyd: 2ail o Fawrth 2021)

Drake, J. (2006) *Observing Children.* Ar gael o: https://www.nurseryworld.co.uk/news/article/observing-children

(Darllenwyd: 2ail o Fawrth 2021)

Essex County Council. (2021) *Role of the adult*. Ar gael o: https://eycp.essex.gov.uk/the-early-years-foundation-stage/how-do-i-become-an-outstanding-practitioner/role-of-the-adult/ (Darllenwyd: 2ail o Fawrth 2021)

First Discovers. (2020) *Child Development Theories: Lev Vygotsky*. Ar gael o: https://www.firstdiscoverers.co.uk/lev-vygotsky-child-development-theories/ (Darllenwyd: 2ail o Fawrth 2021)

Curriculum. (Dim dyddiad) *Your Child's Social-Environmental Development. Ar gael o:* http://curriculum.nesd.ca/Instruction/Early%20Learning/Social%20Emotional%20Development.pdf (Darllenwyd: 2ail o Fawrth 2021)